OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1514 (Cy. 178) (C. 57)

# ADEILADU, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2011

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

I'r graddau y mae'r rheiny'n rhychwantu Cymru a Lloegr, mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau yn Rhan 8 o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p.20) ("Deddf 2009") o ran contractau adeiladu sy'n ymwneud â gwneud gwaith adeiladu yng Nghymru. Nid yw'n cychwyn y darpariaethau hyn o ran contractau adeiladu eraill sy'n cael eu cychwyn gan orchmynion cychwyn ar wahân.

Mae Rhan 8 o Ddeddf 2009 yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p.53) ("Deddf 1996").

Mae darpariaethau Rhan 8 o Ddeddf 2009 y deuir â hwy i rym gan y Gorchymyn hwn (lle bo'n gymwys o ran Cymru) wedi'u cynnwys yn adran 138, sy'n rhoi pŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru anghymhwyso unrhyw rai neu'r cyfan o ddarpariaethau Rhan 2 o Ddeddf 1996.

Mae erthygl 3 yn dwyn i rym, ar y diwrnod ar ôl i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud, y ddarpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion o dan y pŵer y mae adran 138 o Ddeddf 2009 yn ei fewnosod yn Neddf 1996.

## NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

I'r graddau y maent yn rhychwantu Cymru a Lloegr, mae'r darpariaethau a ganlyn yn Neddf 2009 wedi'u

dwyn i rym o ran Cymru gan orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif yr O.S* |
|---|---|---|
| Adran 69 (rhan) | 25.11.2009 | 2009/3087 |
| Adran 71 | 25.11.2009 | 2009/3087 |
| Adran 84 | 25.11.2009 | 2009/3087 |
| Adran 86 | 25.11.2009 | 2009/3087 |
| Adran 87 | 25.11.2009 | 2009/3087 |

Mae amryw o ddarpariaethau Deddf 2009 wedi'u dwyn i rym i'r graddau y maent yn rhychwantu Cymru a Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran contractau adeiladu eraill drwy'r Offerynnau Statudol a ganlyn: O.S. 2009/3087, O.S. 2009/3318 ac O.S. 2010/881.

Gweler hefyd adran 148 ynglŷn â'r darpariaethau a ddaeth i rym wrth i Ddeddf 2009 gael ei phasio.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 1514 (Cy. 178) (C. 57)

# ADEILADU, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2011

*Wedi'i wneud* *17 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 149(1) o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009.

**Rhychwant a chymhwyso'r darpariaethau sy'n dod i rym**

**2.** Mae adran 138 o'r Ddeddf yn dod i rym i'r graddau y mae'n rhychwantu Cymru a Lloegr o ran contractau adeiladu sy'n ymwneud â gwneud gwaith adeiladu yng Nghymru yn unol ag erthygl 3.

**Darpariaethau sy'n dod i rym drannoeth gwneud y Gorchymyn hwn**

**3.** Mae adran 138 o'r Ddeddf yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion.

(**1**) 2009 p.20.

*John Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy,
un o Weinidogion Cymru

17 Mehefin 2011